Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Cilgerran**
**Cilgerran**
**Aberteifi**
**Sir Benfro**
**SA43 2SB**

**Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Cilgerran wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Chwefror 2013.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Cilgerran oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae mwyafrif o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen Saesneg gyda mynegiant clir, ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer yn ddarllenwyr brwdfrydig, ac mae'r goreuon yn defnyddio goslef llais i gyfleu ystyr yn effeithiol iawn. Mae safonau darllen llawer o ddisgyblion yn y Gymraeg wedi gwella erbyn hyn ac maent yn mwynhau darllen llyfrau o'u dewis. Fodd bynnag, mae safonau darllen ychydig o ddisgyblion yn y Gymraeg yn parhau i fod ychydig yn is na safonau Saesneg. Mae lleiafrif yn parhau i ddarllen yn fecanyddol ac ychydig sydd yn medru trafod agweddau o lyfr er mwyn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau yn hyderus.

Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion ysgrifennu'n briodol mewn ystod o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall llawer o ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio dewis eang o eirfa gyfoethog. Mae llawer o'r disgyblion mwyaf galluog yn cyrraedd safonau da iawn yn eu gwaith ysgrifenedig trwy ddefnyddio strwythurau brawddegu a pharagraffu aeddfed ar draws ystod o bynciau.

Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn canolbwyntio'n dda ac yn holi cwestiynau synhwyrol wrth gyfleu syniadau'n hyderus. Yn ystod gweithgareddau ffurfiol, mae llawer o'r disgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi ei ddysgu yn flaenorol. Serch hynny, nid yw medrau llafar Cymraeg ychydig o'r disgyblion yn datblygu digon erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn datblygu medrau mathemategol yn effeithiol. Bellach, mae disgyblion yn gwneud llai o ddefnydd o daflenni gwaith mewn gwersi mathemateg ac yn gwneud mwy o gynnydd yn eu gallu i ddatrys problemau yn unigol ac mewn grwpiau.

Mae dealltwriaeth disgyblion o bynciau gwyddonol a'u medrau ymchwiliol yn datblygu'n dda trwy ymgymryd â nifer o ymchwiliadau diddorol. Trwy hyn, maent yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol ac yn gwneud cynnydd da yn y gwersi gwyddoniaeth.

Mae gwaith sydd yn llyfrau'r disgyblion yn dangos bod safonau ym mhob pwnc craidd wedi gwella ers yr arolygiad craidd. Atgyfnerthir hyn yn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 y tymor hwn.

Mae angen i'r ysgol barhau â'r ffocws ar godi safonau disgyblion yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig yn y Gymraeg. Mae hyn wedi ei nodi yn glir yng nghynllun datblygu'r ysgol.

**Argymhelliad 2: Gwella ymddygiad carfan benodol o ddisgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi mabwysiadu strategaethau effeithiol i hybu ymddygiad da ac maent yn glir i'r disgyblion a'r staff. Mae'r strategaethau wedi cyfrannu'n effeithiol tuag at wella ymddygiad ar draws yr ysgol, ac yn arbennig ar waelod cyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn cynnwys y disgyblion yn llwyddiannus yn y broses o gynllunio rheolau clir a phendant ar ymddygiad. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn deall beth yw'r disgwyliadau ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Mae posteri clir ymhob dosbarth yn atgoffa'r disgyblion o hyn.

Mae'r cynorthwywyr dysgu yn cefnogi'r disgyblion a'r staff yn dda wrth weithredu'r strategaethau hyn. Mae'r cymorth hwn yn gwella ymddygiad disgyblion ynghyd â'u datblygiad personol a chymdeithasol yn dda.

Yn ystod gweithgareddau sydd o dan orchwyliaeth oedolion, mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddel ymddygiad da. Maent yn ystyriol, yn gwrtais ac yn parchu oedolion a'i gilydd.

**Argymhelliad 3: Darparu tasgau priodol i ymestyn y disgyblion mwy abl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diwallu anghenion disgyblion mwy abl a thalentog yn effeithiol. Mae bron pob athro yn gyson yn adnabod ac yn diwallu anghenion unigolion yn dda.

Mae cynlluniau tymor byr yn nodi gweithgareddau pwrpasol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion yn y sesiynau dysgu. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn ymestyn bron pob disgybl mwy abl ar lawr y dosbarth. Mae bron pob gwers yn cynnwys darpariaeth benodol er mwyn herio disgyblion galluog mewn meysydd arbennig, yn enwedig rhifedd a llythrennedd. Mae data olrhain cynnydd disgyblion mwy abl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y ddrpariaeth yn eu hymestyn yn gyson .

Mae'r targedau a osodwyd ar gyfer cyrraedd y lefelau uwch ar gyfer 2013-2014 yn llawer mwy heriol na chynt. Mae canlyniadau asesiadau athrawon am y cyfnod hwn yn dangos cynnydd da yn y ganran sy'n cyrraedd y deilliannau a'r lefelau uwch.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r athrawon a'r staff yn defnyddio ystod o dechnegau asesu ar gyfer dysgu yn hyderus. Mae'r strategaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion yn y gwersi ac yn eu llyfrau.

Mae'r cydlynydd asesu ar gyfer dysgu yn cynnig arweiniad da i'r athrawon a'r staff. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys tynnu ynghyd arferion da a'u rhannu ymysg yr holl athrawon i wella technegau addysgu. Erbyn hyn, mae cynlluniau gwersi'r athrawon yn cynnwys dulliau asesu ar gyfer dysgu ac maent yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a chodi safonau.

Mae athrawon yn rhoi sylwadau pwrpasol iawn yn gyson wrth farcio gwaith disgyblion. Mae'r adborth llafar ac ysgrifenedig penodol yn rhoi darlun clir i'r disgyblion o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Yn ychwanegol, mae disgyblion bellach yn cael cyfle i ymateb i sylwadau athrawon ar eu gwaith ac mae hyn wedi effeithio'n gadarnhaol iawn ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion adolygu eu gwaith eu hunain a gwaith cyfoedion. Mae'r staff yn cwestiynu disgyblion yn effeithiol ac maent yn eu hannog i ofyn cwestiynau eu hunain. Mae hyn yn hyrwyddo cyfraniadau disgyblion yn dda ac yn datblygu eu gallu i fyfyrio ar eu gwaith er mwyn ei wella.

**Argymhelliad 5: Cryfhau'r gweithdrefnau rheolaeth ac arweinyddiaeth ar bob lefel**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r pennaeth newydd yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol. Mae ganddi weledigaeth glir a llwydda i arddel disgwyliadau uchel ymhlith y staff, disgyblion a llywodraethwyr. Mae ethos o gydweithio agos hefyd wedi ei sefydlu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol mewn amser byr. Mae'r cydweithio hwn wedi sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau a gyflwynwyd yn weithredol.

Mae systemau rheoli clir ac addas yn eu lle, ac mae rolau rheolaethol a chyfrifoldebau staff wedi'u diffinio'n glir. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y staff o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn codi safonau yn datblygu'n dda.

Mae cydlynwyr yn monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Trwy arwain cyfarfodydd staff o fewn eu meysydd penodol, mae'r cydlynwyr yn rhannu syniadau ar ddulliau addysgu newydd yn effeithiol ac yn cyfeirio staff at adnoddau neu ddogfennaeth berthnasol.

Mae arweinwyr hefyd yn rhannu canfyddiadau monitro gyda'r llywodraethwyr. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi cryfderau yn ogystal â rhai agweddau sydd angen eu gwella. O ganlyniad, mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol. Mae ganddynt

ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol ac mae eu rôl weithredol wrth fonitro a goruchwylio safonau addysgu'r ysgol yn datblygu'n briodol. Mae'r ymweliadau 'teithiau dysgu' yn cyfrannu'n dda at hyn.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu uwch dim rheoli gweithgar sydd yn cynnwys staff yr ysgol yn ogystal â llywodraethwyr. Mae ganddynt ffocws glir ar gryfhau arweinyddiaeth yr ysgol a sicrhau gwelliant pellach yn y safonau. Mae'r dirprwy dros dro yn defnyddio cyfnodau digyswllt rheolaidd yn briodol er mwyn datblygu ei rôl a'i ddealltwriaeth o ddata cyrhaeddiad. Mae'r ysgol yn casglu barn rhieni yn effeithiol ac mae'r uwch dîm rheoli yn dadansoddi canlyniadau ac yn gweithredu ar ddeilliannau'n ofalus. Mae'r prosesau hyn wedi'i cysylltu'n uniongyrchol â chynllunio strategol yr ysgol.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod gweithdrefnau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gynhwysfawr ac yn arwain at welliannau penodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi llwyddo i rymuso ei gweithdrefnau a'i strwythurau ar gyfer hunanarfarnu ac, o ganlyniad, mae'r staff a'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae'r pennaeth wedi datblygu dull mwy strategol a chydlynol ar gyfer hunanarfarnu sydd bellach yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol o ddysgu ac addysgu. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth sydd yn arwain at godi safonau'r disgyblion.

Mae dull mwy trylwyr o arfarnu perfformiad, sy'n cynnwys casglu barn y rhieni a'r disgyblion trwy holiaduron, bellach wedi'i wreiddio. Yn dilyn dadansoddiadau manwl, mae'r ysgol yn ymateb i'w dyheadau a'u hawgrymiadau yn gyflym er mwyn cymryd camau priodol ar gyfer sicrhau gwelliant.

Mae'r holl staff yn cymryd rhan fwy gweithredol yn y broses o wella ansawdd. Maent ynghlwm yn y broses o symud yr ysgol yn ei blaen ac mae ymdeimlad o weithio fel tîm yn gryf. Mae cyfrifoldebau staff wedi eu dosrannu'n glir, ac mae amserlen gynhwysfawr wedi ei threfnu er mwyn sicrhau bod arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn deilliannau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r prosesau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chynllunio strategol yr ysgol.

Ers dechrau'r tymor, mae'r pennaeth wedi monitro safonau ym mhob dosbarth gan drefnu bod un cydlynydd pwnc yn cysgodi'r arfer hon er mwyn datblygu eu medrau monitro hwy. Mae'r rhaglen o ymweliadau monitro wedi ei chynllunio dros gyfnod o dair blynedd fel rhan o broses hunanarfarnu'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys arsylwi gwersi unigol, craffu ar lyfrau a theithiau dysgu. Mae'r ysgol bellach yn gwneud defnydd priodol o arsylwadau dysgu er mwyn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant yn yr addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau monitro gwersi bob tro yn canolbwyntio digon ar safonau disgyblion ac mae ychydig yn parhau i fod yn ddisgrifiadol ar adegau. Mae angen i'r ysgol fonitro ac arfarnu gwaith y cydlynwyr pynciol er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb yn yr arsylwadau ar draws yr ysgol.

Mae athrawon a llywodraethwyr yn trafod y meysydd ar gyfer datblygiad pellach yn fwy rheolaidd, ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio ar gyfer gwelliant. Er

mwyn cynnal a gwella ar y cynnydd hwn, dylai'r ysgol sicrhau bod arfarniadau monitro yn arwain at lunio adroddiad hunanarfarnu cynhwysfawr er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliant.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.